# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, AR DDYDD MERCHER 12 CHWEFROR 2020 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden – Cadeirydd

Cynghorwyr:

N. George (yr Amgylchedd a Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B. Jones (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Adfywio, Trafnidiaeth a Chynaladwyedd), L. Phipps (Cartrefi, Lleoedd a Thwristiaeth) ac E. Stenner (Cyllid, Perfformiad a Chynllunio).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

M. Williams (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Eiddo), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), D Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), L. Allen (Prif Gyfrifydd Grŵp – Tai), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog Dros Dro Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carl Cuss.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd B. Jones fuddiant personol a rhagfarnus o ran Eitem 8 Taliadau Cyfrif Refeniw Tai – 2020/2021, ac yntau'n un o denantiaid y Cyngor, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

Datganodd y Cynghorydd N. George fuddiant personol a rhagfarnus o ran Eitem 8: Taliadau Cyfrif Refeniw Tai – 2020/2021, ac yntau'n un o denantiaid garejys y Cyngor, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 3. CABINET – 29 IONAWR 2020

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd rhwng 29 Ionawr 2020 a 10 Mehefin 2020. Atgoffwyd yr Aelodau fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac felly mae'n gallu newid.

Trafododd y Cabinet y Flaenraglen Waith a gofyn am newid yr Aelod Cabinet cyfrifol i'r Cynghorydd L. Phipps ar yr adroddiad sy'n cyfeirio at (16) Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol i'w gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiad uchod, nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 5. GWERTHU TIR GER TŶ DYFFRYN, YSTRAD MYNACH

Gofynnwyd i'r Cabinet ohirio'r adroddiad, ar ôl cael cynnig gan barti arall â diddordeb, ac er mwyn caniatáu ystyried y cynnig hwn gofynnwyd iddynt ohirio'r eitem i ddyddiad cyfarfod diweddarach.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd gohirio'r adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a roddwyd yn y cyfarfod, ohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

## 6. ERDF 4.4 CYFLEOEDD CYLLIDO – TŶ DU, NELSON – UNEDAU CYFLOGAETH CAM 1

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar y cynnydd tuag at sicrhau cyllid allanol gan Raglen Buddsoddi Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Blaenoriaeth 4 – Amcan Penodol 4, a nodi a cheisio cytundeb ar y lefelau gofynnol o arian cyfatebol i ganiatáu gweithredu Unedau Cyflogaeth Cam 1 yn Nhŷ Du, Nelson, yn llawn.

Nodwyd bod y Cabinet, ym mis Hydref 2019, wedi cytuno ar gyllid cyfalaf ychwanegol o hyd at £402,234 gan y Cyngor i ddenu £1.386m o gyllid ychwanegol o'r Undeb Ewropeaidd a hyd at £212k o gyllid gan Adran Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru i adeiladu unedau ychwanegol yn Nhŷ Du yn Nelson, a'r Lawnt yn Rhymni.

Roedd cais y Cyngor am gyllid ychwanegol yn rhannol lwyddiannus gyda chyfanswm cynnig grant o hyd at £778,000 o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd y cynnig grant llai hwn yn caniatáu gweithredu'r cynllun yn llawn yn Ystâd y Lawnt; fodd bynnag, bydd angen cyfraniad ychwanegol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru i weithredu'r opsiwn adeiladu a ffefrir ar gyfer Tŷ Du.

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar fwrw ymlaen ag Opsiwn 2 (Lleiniau 1–4) yn Nhŷ Du, Nelson, a fyddai'n darparu arwynebedd llawr ychwanegol a dyma'r opsiwn a ffefrir gan swyddogion,

Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Bydd yr adeilad ychwanegol y mae Opsiwn 2 yn ei gynnig yn darparu gwerth ychwanegol sylweddol i brosiect Tŷ Du, gan gynnig mwy o arwynebedd llawr o ran cyflogaeth ac, felly, fwy o botensial o ran incwm rhent.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod cadarnhad wedi dod i law bod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r cais am £730,000 a'i fod yn arbennig o awyddus i weithredu Opsiwn 2.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafodwyd rhent, a nodwyd y byddai'r tâl arfaethedig o £6.50 y droedfedd sgwâr yn darparu incwm o £90,000 y flwyddyn; byddai hynny, wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru, yn golygu £45k i'r Awdurdod Lleol. O ganlyniad, byddai'n cymryd 20 o flynyddoedd i dalu'r arian yn ôl. Nodwyd, o ddefnyddio'r telerau rhentu, y byddai'r ad-daliad ar gyfer Opsiwn 3 yn debyg, yn yr ystyr y byddai'n cymryd 25 o flynyddoedd. Fodd bynnag, byddai cyflwyno 4 uned yn lle 3 uned yn golygu mwy o effaith economaidd fuddiol. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o ran codi tâl, a nodwyd y bydd y ffioedd yn amodol ar chwyddiant, fodd bynnag, cynhaliwyd yr ymarfer ar sail y gyfradd gyfredol, er darbodusrwydd ac i ddarparu cyfrifiadau cyfredol. Nodwyd y byddai'r cyfnod ad-dalu yn byrhau wrth i gyfraddau rhent gynyddu.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r cynllun, yn enwedig y cyfleoedd cyflogaeth, a nodwyd y bydd y cynllun cyfredol yn llenwi 1 hectar, mae 2 ychwanegol ar gael ar y safle, a'r gobaith yw y gallai'r sector preifat eu cymryd neu'n hwyrach gan y Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, gymeradwyo £503,000 o'r Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ar gyfer Tŷ Du i sicrhau cyllid o £713,750 gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu a gwireddu Opsiwn 2 (4 uned) a gyflwynir yn adroddiad y Swyddog.

## 7. UWCHGYNLLUN BLAENAU'R CYMOEDD DRAFFT

Roedd yr adroddiad atodedig, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 28 Ionawr 2020, yn darparu'r manylion am Uwchgynllun Blaenau'r Cymoedd Drafft ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer yr Uwchgynllun fel sylfaen ar gyfer proses ymgynghori cyhoeddus o 17 Chwefror 2020 tan 30 Mawrth 2020.

Nodwyd bod Bwrdeistref Sirol Caerffili a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach yn cychwyn ar gyfnod o newid mawr. Mae'r angen am strategaeth o'r pwys mwyaf i gydlynu mentrau adfywio ac i fanteisio ar ffrydiau cyllido ar frys er mwyn gwneud y gorau o'r buddion posibl i'r Fwrdeistref Sirol.

Amlinellodd y Swyddogion sut mae llofnodi'r Cytundeb Dinesig a Chronfa Fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi dynodi buddsoddiad o £1.2 biliwn i helpu twf economaidd y rhanbarth. Mae gan y buddsoddiad hwn – ynghyd ag ymrwymiad sydd werth £100 miliwn y manylir arno gan y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De yn 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' – y potensial i gael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â heriau amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sy'n cael eu hwynebu ym Mlaenau'r Cymoedd. Cymeradwywyd uwchgynlluniau ar gyfer Basn Caerffili ac Ystrad Mynach – sef y ddau uwchgynllun cyntaf mewn cyfres o bump a ddyluniwyd i ategu'r strategaeth 'Sail i Lwyddiant' – gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2018 a mis Ebrill 2019, yn y drefn honno.

Nodwyd bod y ffrydiau cyllido hyn, yn gysylltiedig â gwelliannau o ran cysylltedd i'w cyflawni gan Gam 2 Metro De Cymru a gwaith deuoli'r A465, yn cyflwyno cyfleoedd. Amlinellwyd sawl blaenoriaeth sy'n berthnasol i Flaenau'r Cymoedd yn y cyhoeddiad, 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'. Roedd y rhain yn cynnwys creu 7,000 o swyddi newydd, gwneud y mwyaf o

botensial gwaith deuoli'r A465 a chreu Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a fyddai'n cysylltu mannau gwyrdd ac atyniadau i ymwelwyr ac felly'n creu cyfleoedd twristiaeth.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd y Cabinet yr Uwchgynlluniau cyfredol sy'n cael eu drafftio ac, wrth nodi bod 3 allan o'r 5 bellach wedi'u cwblhau, ofyn am ragor o wybodaeth am gwblhau'r 2 sy'n weddill. Eglurodd y Swyddogion fod y tîm Cynllun Datblygu Lleol wedi bod yn gweithio ar yr Uwchgynlluniau, fodd bynnag, gan fod y Cynllun Datblygu Lleol i'w weithredu, mae swydd wedi'i hysbysebu am 2 flynedd i gwblhau'r Uwchgynllun ac mae'r gwaith recriwtio ar y gweill.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, y dylai'r penderfyniad yn Atodiad 2 i'r adroddiad gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ar unwaith ac ni ddylai'r penderfyniad yn Atodiad 1 gael ei fabwysiadu am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad.

## 8. TALIADAU CYFRIF REFENIW TAI – 2020/2021

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 28 Ionawr 2020, yn ceisio barn y Cabinet ar y taliadau rhent uwch ar gyfer tai'r Cyngor. Nodwyd bod y taliadau rhent yn canolbwyntio yn bennaf ar renti tai'r Cyngor ac y bwriedir iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi pennu'r cynnydd rhent awgrymedig blynyddol yn y blynyddoedd blaenorol. Arferai'r polisi codi safonol ar gyfer Awdurdodau Lleol fod yn seiliedig ar Fynegai Pris Adwerthu y mis Medi blaenorol ynghyd â chynnydd gwirioneddol o 2% o ran cydgyfeirio rhenti. Newidiodd y Gweinidog Tai ac Adfywio y polisi codi hwn fel rhan o'r 'Polisi ar gyfer rhenti tai cymdeithasol' newydd ym mis Ebrill 2015, a chafodd ei dderbyn gan yr Aelodau yn adroddiad taliadau'r Cyfrif Refeniw Tai 2015/16. Gosododd y polisi fand rhent targed ar gyfer pob Awdurdod, ac os yw'r rhent wythnosol cyfartalog yn is na'r rhent targed, bydd yn rhaid i'r Awdurdod gynyddu rhenti cyfartalog, ac os yw'r rhent wythnosol cyfartalog yn uwch na'r rhent targed, bydd rhenti cyfartalog yn cynyddu ar gyfradd is, i ddod â'r rhent yn ôl o fewn yr amlen darged.

Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2019, cyhoeddwyd Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy a oedd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithredu polisi rhenti pum mlynedd o 2020–21, ac y dylai landlordiaid ganolbwyntio ar Werth am Arian a fforddiadwyedd

Dywedwyd wrth y Cabinet, yng ngoleuni'r Adolygiad hwn, fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Polisi Rhenti 2020/21. Pennodd gynnydd blynyddol o hyd at Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) +1% bob blwyddyn am 5 mlynedd o 2020–21 i 2024-25 gan ddefnyddio lefel y CPI o'r mis Medi blaenorol bob blwyddyn. Hwn fyddai'r cynnydd mwyaf a ganiateir. Amlinellodd y Polisi Rhenti hefyd sut y dylai landlordiaid cymdeithasol wneud asesiad blynyddol o effeithlonrwydd costau, gwerth am arian a fforddiadwyedd i denantiaid.

Nodwyd, gan mai ffigur chwyddiant CPI y mis Medi blaenorol oedd 1.7%, roedd y polisi'n caniatáu cynnydd uchaf o 2.7% ar gyfanswm incwm rhent y Cyngor. Fodd bynnag, roedd y Cynllun Busnes wedi rhagdybio cynnydd rhent o 3% ar gyfer 2020/21 i 2024/25. Felly, gofynnwyd i'r Aelodau argymell i'r Cabinet lefel y cynnydd fesul eiddo o fis Ebrill 2020 yn seiliedig ar yr opsiynau yn yr adroddiad (2.7%, 1.7% neu ddim cynnydd), a gofynnwyd iddynt hefyd gefnogi cynnal ymarfer i ystyried fforddiadwyedd i denantiaid wrth bennu cynnydd rhent yn y dyfodol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cynnydd rhent arfaethedig a'r astudiaeth fforddiadwyedd, sydd i'w chynnal y flwyddyn nesaf. Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion Cymorth Tenantiaid am eu cymorth parhaus a'u hymrwymiad i gefnogi a chynorthwyo tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau. Ychwanegodd y Swyddogion fod Swyddogion Cymorth Tenantiaid wedi helpu sicrhau arbedion o £450k i denantiaid y chwarter diwethaf er mwyn helpu cynnal tenantiaethau, megis rheoli dyledion, dod o hyd i gyflenwyr ynni rhatach a chyngor ariannol arall.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

i) cytuno ar gynnydd rhent o 2.7% (CPI ynghyd ag 1%) – (£90.65/52 wythnos) o fis Ebrill 2020;

ii) cynnal ymarfer fel y gellir ystyried fforddiadwyedd i denantiaid wrth bennu cynnydd rhent yn y dyfodol yn unol â'r polisi rhenti.

## 9. CYNIGION CYLLIDEB TERFYNOL 2020/21 A'R RHAGOLWG ARIANNOL TYMOR-CANOLIG

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynigion cyllideb 2020/21, a gynhwyswyd yn yr adroddiad, cyn y penderfyniad terfynol yng nghyfarfod y Cyngor ar 20 Chwefror 2020, a rhoi diweddariad cryno ynghylch y Rhagolwg Ariannol Tymor-canolig.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru, fel arfer, yn cyhoeddi'r manylion am Setliad Cyllid Dros Dro Llywodraeth Leol ddechrau mis Hydref bob blwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd cyfuniad o'r ansicrwydd ynghylch Brexit ynghyd â chyhoeddi Etholiad Cyffredinol, ni ryddhawyd y manylion am Setliad Dros Dro 2020/21 tan 16 Rhagfyr 2019.

Ar 13 Tachwedd 2019, cafodd y Cabinet adroddiad a oedd yn darparu'r manylion am gynigion y gyllideb ddrafft, a baratowyd cyn rhyddhau Setliad Dros Dro 2020/21. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar amrywiaeth o ragdybiaethau a gwybodaeth wedi'u diweddaru a oedd ar gael ar y pryd, ac roedd yn cynnwys arbedion arfaethedig gwerth cyfanswm o £8.485m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 ynghyd â chynnydd arfaethedig o 6.95% yn Nhreth y Cyngor.

Cymeradwywyd Cynigion y Gyllideb Ddrafft gan y Cabinet gan sicrhau bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer ymgynghori hyd nes y byddai'r manylion am y Setliad Dros Dro ar gael.

Arweiniodd cyhoeddiad y Setliad Dros Dro ar 16 Rhagfyr 2019 at sefyllfa ffafriol i Awdurdodau Lleol a chaniatáu hyblygrwydd wrth benderfynu cynigion y gyllideb derfynol. Cyflwynodd yr adroddiad y manylion am gynigion cyllideb 2020/21 wedi'u diweddaru gan adlewyrchu'r Setliad Cyllid ffafriol ac adborth o'r broses ymgynghori ar y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad o ran y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 6.95% i 4.7%, dyrannu £0.5m o'r gyllideb i wella'r amgylchedd lleol, diogelu'r cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gostyngiad o ran yr arbedion arfaethedig o £8.485m i £3.047m.

Ar ôl cael cais am siarad, gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Colin Mann, Arweinydd Plaid Cymru, i annerch y Cabinet.

Awgrymodd y Cynghorydd Mann, er ei fod o blaid cynigion y gyllideb, y gellid lleihau'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ymhellach o 4.7% i 3.5%. Nodwyd, ar dudalen 201 yr adroddiad, fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y gyllideb naill ai ddim o blaid cynnydd neu o blaid cynnydd is.

Diolchodd y Cabinet i'r Cynghorydd Mann am ei gyfraniad a chafwyd trafodaeth.

Eglurodd y Swyddogion, er bod gostyngiad pellach o ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn bosibl, byddai angen i'r Cabinet gofio y byddai refeniw ychwanegol yn cael ei golli flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth symud ymlaen.

Cafwyd rhagor o drafodaethau ynghylch adborth y cyhoedd o ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor a gwnaed cymariaethau ag Awdurdodau Lleol eraill, a nodwyd bod Caerffili o hyd yn y chwartel isaf, gydag eiddo Band B yn wynebu cynnydd blynyddol o £41.35, sydd cyfwerth â £0.80 yr wythnos. Nodwyd bod 33.67% o'r eiddo yn y Fwrdeistref Sirol yng nghategori Band B, gyda 21.04% o gartrefi yn derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor yn llawn neu'n rhannol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddogion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion:

i) cymeradwyo cynigion y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21, sef £356.130m, fel y manylir arnynt drwy'r adroddiad ac a grynhoir yn Atodiad 1;

ii) cymeradwyo'r arbedion arfaethedig ar gyfer 2020/21, sef cyfanswm o £3.047m, fel y'u nodir ym mharagraff 5.4.3 ac Atodiad 2;

iii) cefnogi'r cynnig i ddyrannu £500k o arbedion ymlaen llaw i Brosiectau Amgylcheddol fel y'i nodir ym mharagraffau 5.4.7 a 5.4.8 o Adroddiad y Swyddogion;

iv) cefnogi'r cynnig i ddyrannu'r balans o £1.471m o arbedion ymlaen llaw i Gronfeydd Cyfalaf wrth Gefn wedi'u Clustnodi, hyd nes y paratoir adroddiad yn y gwanwyn yn nodi'r manylion am fuddsoddiadau cyfalaf i ategu agenda 'llywio lleoedd' y Cyngor (paragraff 5.4.7);

v) cefnogi argymhelliad y Swyddog Dros Dro Adran 151 i gadw balans y Gronfa Gyffredinol ar 3% o Gyllideb Refeniw Net 2020/21, sef £10.684m (paragraff 5.5.5);

vi) cefnogi'r cynnig i ddyrannu balans y Gronfa Gyffredinol dros ben a ragwelir, sef £2.577m, i'r Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn wedi'u Clustnodi i gefnogi buddsoddiad yn yr agenda 'llywio lleoedd' (paragraff 5.5.5);

vii) cymeradwyo'r rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2020/21 i 2022/23, fel y'i nodir yn Atodiad 4 i Adroddiad y Swyddogion.

viii) cefnogi'r cynnig i gynyddu Treth y Cyngor 4.7% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i sicrhau cyllideb gytbwys (pennu Band D Treth y Cyngor yn £1,184.38);

ix) nodi'r sefyllfa wedi'i diweddaru ar y rhagolwg ariannol tymor-canolig.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.14am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2020.

______________________

CADEIRYDD